

# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

# ein huno ni i gyd

## Taflen wybodaeth

### Beth yw Bwrdd Pobl Ifanc yr NSPCC ar gyfer Newid?

Mae'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yn grŵp amrywiol o 15 o bobl ifanc o bob cwr o'r DU. Maen nhw'n rhannu eu syniadau a'u barn i lywio, cynghori a dylanwadu ar yr NSPCC ar yr hyn sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc. Maen nhw'n cymryd rhan mewn llawer o brosiectau hwyliog ac yn cael cyfle i deithio ledled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd a gweithdai.



# NSPCC

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO  
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

# Young People's Board for Change

# help write our future

## Information sheet

### What is the NSPCC Young People's Board for Change?

The Young People's Board for Change are a diverse group of 15 young people from across the UK. They share their ideas and opinions to steer, advise and influence the NSPCC on what matters most to children and young people. They get involved in lots of fun projects and get the opportunity to travel across the country to take part in residential, meetings, and workshops.



# NSPCC

EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

## Os ydw i'n dod yn aelod, beth fydda i'n gorvod cytuno i'w wneud?

### Fel aelod, byddi di'n:

- Mynd** i sesiynau misol a gweithdai gyda gweddill y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant i ddatblygu nifer o sgiliau pwysig** fel ymgyrchu, siarad cyhoeddus a mwy.
- Rhannu dy farn** gyda'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, fel staff ac ymddiriedolwyr yr NSPCC.
- Dylanwadu ar y gwaith a wnawn yn yr NSPCC**, fel ein helpu i greu ymgyrchoedd a gwasanaethau newydd.
- Gweithredu ar bynciau sy'n bwysig i ti** – bydd hyn yn golygu cyfarfod a chydweithio mewn grwpiau llai, a gweithio gyda phobl ifanc eraill sydd ddim ar y bwrdd.
- Cynrychioli'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid** mewn digwyddiadau cyffrous.

### Fel aelod, mae angen i ti:

- Gytuno** i fod yn aelod o'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid am ddwy flynedd, o fis Mawrth 2025 i fis Mawrth 2027.
- Bod** ar gael i fynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb yn rheolaidd, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb.
- Bod yn hapus i rannu dy farn a dy syniadau**, a dweud wrth yr NSPCC beth yw dy farn am yr hyn maen nhw'n ei wneud, a beth gallen nhw fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- Bod yn gyffrous am weithio mewn tîm**, bod yn barod i wrando ar eraill a pharchu barn a allai fod yn wahanol i dy farn di.
- Diddordeb mewn creu newid** i blant a phobl ifanc ledled y DU.
- Bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd rhan mewn profiadau newydd**, fel mynd i gyfarfodydd gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr NSPCC.

Efallai bod hyn yn swnio'n gyffrous dros ben, ond gallai hefyd gynnwys llawer o bethau newydd nad wyt ti wedi'u gwneud o'r blaen – mae hynny'n holol iawn! Bydd llawer o sesiynau hyfforddi a gweithdai hwyliog i dy helpu i ddysgu pethau newydd, a datblygu dy hyder ar hyd y daith. Hefyd, mae aelodau cyfeillgar ein Tim Cyfranogiad yma i dy helpu di drwy bob cam o'r daith er mwyn i ti deimlo'n hyderus ac yn barod i gael dy glywed!



## Faint mae'n ei gostio?

Nid yw'n costio dim i ymuno. Bydd yr NSPCC yn talu am gostau teithio, llety a threuliau eraill fel bwyd pan fyddi'n dod i unrhyw ddigwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu rhannu â thi a dy riant/gofalwr cyn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau. I gymryd rhan mewn sesiynau ar-lein, bydd angen mynediad at ddyfais sydd a'r rhyngrwyd, camera a meicroffon. Os nad yw'r rhain ar gael, peidiwch â phoeni. Gallwn siarad am y ffordd orau o'ch cael chi i gymryd rhan.

## Rydw i eisiau gwneud cais i'r Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid. Beth sydd angen i mi ei wneud?

Gret! Y cam cyntaf yw llenwi ffurflen gais er mwyn i ni gael gwybod mwy amdanat ti a pham rwyd ti'n awyddus i gymryd rhan. Mae'r ffurflen ar gael yma [nspcc.org.uk/boardforchange](https://nspcc.org.uk/boardforchange) a bydd angen i ti ei hanfon atom ni erbyn Ionawr 20fed 2025. Bydd angen i ti fod ar gael ar gyfer cyfweliad dros y we gydag aelod o'n tim cyfeillgar yn ystod mis ionawr neu Chwefror 2025.

## Beth os bydd angen mwy o help arnaf fi i wneud cais?

Rydyn ni bob amser yma i helpu. Anfona neges at [participationteam@nspcc.org.uk](mailto:participationteam@nspcc.org.uk) a gallwn gael sgwrs i wneud yn siŵr dy fod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnat ti i wneud cais.



# Young People's Board for Change

## If I become a member, what am I signing up to?

### As a member you will:

- **Attend** monthly online sessions and workshops with the rest of the Young People's Board for Change.
- **Take part in training to develop lots of important skills** like campaigning, public speaking and more.
- **Share your ideas and opinions** with key decision makers at the NSPCC, like our trustees and other staff
- **Influence the work we do at NSPCC**, like helping us to create new campaigns and services.
- **Take action on topics that matter to you** – this will involve meeting and working together in smaller groups, and working with other young people who are not on the board.
- **Represent the Young People's Board for Change** at exciting events.

This might sound really exciting, but might also involve lots of new things that you haven't done before – that is totally OK! There will be lots of fun training sessions and workshops to support you to learn new things, and develop your confidence along the way. Plus, our friendly Participation Team are here to support you through every step of your journey so that you feel confident and ready to be heard!

### As a member, you need to be:

- **Committed** to being a member of the Young People's Board for Change for two years, from March 2025 - March 2027.
- **Available** to consistently attend all online and face-to-face meetings, including in-person residential events.
- **Willing to share your ideas and opinions**, and to tell the NSPCC what you think about what we do, and what we could be doing better for children and young people.
- **Excited to work as a team**, listen to others and respect people's opinions that might be different to your own.
- **Interested in making a change** for children and young people across the UK.
- **Ready to try new things and take part in new experiences**, like attending meetings with decision-makers at the NSPCC.

## What does it cost?

It doesn't cost anything to join. The NSPCC will cover the cost of travel, accommodation and other expenses like food when you come to any in-person events and meetings. All of these details will be shared with you and your parent/carer before any meetings or events. To take part in online sessions, you will need access to a device that has internet, a camera and a microphone. If you don't have this, don't worry. We can talk about the best way to get you involved.

## I want to apply to the Young People's Board for Change. How does it work?

Great! The first step is to fill out an application form so that we can find out a bit more about you and why you would like to take part.

You can find this here:

**[nspcc.org.uk/boardforchange](https://nspcc.org.uk/boardforchange)**,

and you will need to submit it to us by 20 January 2025. You will need to be available to come to a virtual interview with one of our friendly team members in January or February 2025.

## What if I need additional support with applying?

We're always here to help.

Send a message to

**[participationteam@nspcc.org.uk](mailto:participationteam@nspcc.org.uk)**

and we can have a chat to make sure that you have all the support you need to apply.

